

Cynllun Bioamrywiaeth

Corff Cymeradwyo	<i>Cyngor y Brifysgol</i>
Dyddiad Cymeradwyo	<i>Gorffennaf 2017</i>
Perchennog y Polisi / Cyfarwyddyd	<i>Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd</i>
Cyswllt y Polisi / Cyfarwyddyd	<i>Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd</i> hasstaff@aber.ac.uk neu 01970 62(2073)
Statws y Polisi / Cyfarwyddyd	<i>Newydd</i>
Cyfeirnod	<i>P006</i>
Fersiwn	<i>V1.0</i>
Dyddiad Adolygu	<i>Bob 3 Mlynedd</i>

Cyflwyniad

Nod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a gyflwynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016, yw galluogi rheolaeth ragweithiol, gynaliadwy a chydlynol ar adnoddau naturiol Cymru. Yn ganolog i'w gweithrediad mae'r pwyslais ar sicrhau agwedd integredig at reoli adnoddau naturiol er mwyn cyflawni cynaladwyedd tymor hir.

At ddibenion y Ddeddf, caiff Prifysgol Aberystwyth ei hystyried yn awdurdod cyhoeddus. Mae Adran 6(1) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi bod

“Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, a thrwy wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, cyhyd ag y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.”

Yn unol â gofynion Adran 6(6) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'r ddogfen ganlynol yn cynnwys cynllun o weithgareddau arfaethedig i sicrhau cydymffurfiaeth â'r datganiad uchod.

Gweithgareddau Cysylltiedig


Mae diogelu, cadw a gwella bioamrywiaeth yn amcanion critigol i Brifysgol Aberystwyth drwy ei holl weithgareddau. Rhaid i'r Brifysgol gydnabod yr amrywiaeth eang o weithgareddau a phrosesau a geir o fewn ei gweithrediadau, ac ystyried ac ymdrin â'r effeithiau ar fioamrywiaeth ac ecosystemau yn y modd y cynhelir y gweithgareddau hyn. O ganlyniad, mae'r Brifysgol yn bwriadu y bydd y Cynllun hwn yn gymwys i amrywiaeth o weithgareddau a phrosiectau a gynhelir neu a gynllunnir ym maes bioamrywiaeth a rheolaeth amgylcheddol ehangach. Mae'r ymrwymiad i gryfhau bioamrywiaeth ac ecosystemau cysylltiedig yn amlwg nid yn unig yn amcanion y Cynllun hwn, ond hefyd ar draws pob cynllun a datblygiad arall sy'n cael eu dilyn yn weithredol gan y sefydliad.

Mae'r Brifysgol yn falch o'i statws fel y campws Prifysgol cyntaf yng Nghymru i gyflawni Dyfarniad Baner Werdd, ar ôl ennill y dyfarniad am y tro cyntaf yn 2015. Ym mis Gorffennaf 2016, cadwodd Prifysgol Aberystwyth y Dyfarniad Baner Werdd yn ei Champws Penglais, ac ennill y dyfarniad ar Gampws Llanbadarn am y tro cyntaf. Nod ansawdd uchel ar gyfer parc neu fan gwyrdd yw'r Dyfarniad Baner Werdd, sy'n bartneriaeth ar draws y DU a gyflenwir yng Nghymru gan Cadwch Cymru'n Daclus gyda chefnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff ei ddyfarnu gan arbenigwyr ar fannau gwyrdd sy'n ymweld â safleoedd yr ymgeiswyr ac yn asesu yn erbyn wyth maen prawf llym sy'n cynnwys safonau garddwriaethol, glendid, cynaladwyedd ac ymgysylltu cymunedol. I gael y dyfarniad rhaid cyflwyno Cynllun Rheoli Tiroedd sy'n cynnwys cynigion a chynlluniau gweithredu ar gyfer gwella bioamrywiaeth. Mae'r Brifysgol yn croesawu'r Ddeddf fel cyfle i arddangos a chyfoethogi'r amcanion bioamrywiaeth a ffurfiwyd o fewn y Cynllun Rheoli Tiroedd ac mewn mannau eraill ar draws y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol hefyd ar hyn o bryd yn gweithio at gyflawni cydymffurfiaeth gyda BS EN ISO 14001, sy'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu System Rheoli Amgylcheddol effeithiol. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn tanysgrifio i'r llwyfan cyflwyno cyfnodol i sefydliadau addysg uwch, EcoCampus. Mae cyfranogwyr yn cael cydnabyddiaeth ar bob cam o'r broses drwy

gyfres o ddyfarniadau o efydd i arian, aur a phlatinwm, gyda'r Dyfarniad Platinwm olaf yn cydymffurfio â gofynion ISO 14001.

O fewn y gofynion, mae'r safon yn cynnwys pum brif ystyriaeth, fel y dangosir yn Ffigur 1:



Ffigur 1

Ym mis Tachwedd 2016, enillodd y Brifysgol Ddyfarniad Aur EcoCampus mewn perthynas â'i System Rheoli Amgylcheddol. Wrth ddatblygu'r system hon, lluniwyd gweithdrefnau penodol a'u rhannu â staff perthnasol â'r nod o annog a diogelu bioamrywiaeth drwy fynd i'r afael â'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n ymwneud â rheoli bioamrywiaeth ar diroedd y Brifysgol, a lleihau effeithiau amgylcheddol a allai niweidio neu ddifrodi yn sgil gweithgareddau'r Brifysgol.

Amcanion Bioamrywiaeth

Mewn perthynas â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae amcanion arfaethedig cychwynnol y Brifysgol a'r camau gweithredu cysylltiedig i gyflawni cydymffurfiaeth fel a ganlyn:

- i. **Annog cynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth mewn gweithgareddau penderfynu ar draws y sefydliad;**
 - Sicrhau bod prosesau perthnasol yn cynnwys ystyriaeth o faterion bioamrywiaeth yn ystod camau penderfynu a dichonoldeb;
 - Datblygu a chyflwyno System Rheoli Amgylcheddol effeithiol sy'n cynnwys ystyriaethau ac effeithiau bioamrywiaeth yn greiddiol;
- ii. **Hwyluso strwythurau llywodraethu a chymorth i alluogi cyflawni amcanion Cynllun Bioamrywiaeth y Brifysgol;**
 - Gwreiddio materion ac ystyriaethau bioamrywiaeth yng ngweithgareddau Pwyllgorau a Grwpiau llywodraethu priodol y Brifysgol;

- Sefydlu polisiau a gweithdrefnau clir sy'n gosod disgwyliadau clir i staff a myfyrwyr o ran bioamrywiaeth;
- iii. **Gwella ymwybyddiaeth ac ymgysylltu staff a myfyrwyr gyda materion bioamrywiaeth;**
- Cynnwys staff a myfyrwyr mewn gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth bioamrywiaeth ac amgylcheddol;
 - Datblygu ymwybyddiaeth o faterion bioamrywiaeth a diogelu ecosystem drwy sicrhau bod hyfforddiant ac adnoddau priodol ar gael;
- iv. **Hybu datblygiad a (lle bo'n bosibl) adfer cynefinoedd gwyllt a naturiol ar draws tiroedd y Brifysgol;**
- Cyflwyno a chyfoethogi ardaloedd blodau gwyllt, gan gynnwys rhywogaethau lleol neu gynhenid, neu rywogaethau sy'n briodol i amodau lleol, lle bo'n bosibl (*gweler Ffigur 2*);
 - Rheoli a chadw trefn ar rywogaethau ymwithiol a all achosi difrod i'r amgylchedd neu'r ecosystem ehangach (e.e. canclwm Japan) yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol;
- v. **Newid prosesau cynnal a chadw i leihau effaith gweithgareddau'r Brifysgol ar ecosystemau;**
- Ystyried ac addasu gweithgareddau cynnal a chadw fel torri gwair a thocio cloddiau er mwyn lleihau'r effaith ar ecosystemau a chynefinoedd yn ystod misoedd gweithredol;
 - Cynyddu defnydd o gynhyrchion organig a/neu amgylcheddol gyfeillgar mewn gweithgareddau cynnal y tiroedd;
- vi. **Amddiffyn ac annog diogelu rhywogaethau a chynefinoedd ar draws y sefydliad;**
- Cyflwyno trefniadau cadwraeth penodol ar gyfer rhywogaethau y gwyddys eu bod yn byw ar diroedd y Brifysgol e.e. blychau adar, blychau ystlumod ac ati;
 - Hwyluso cyfleoedd ar gyfer creu cynefinoedd naturiol drwy waith cynnal a chadw a datblygu (*gweler Ffigur 3*);

Mae ystyriaeth a chymeradwyaeth gan Gyngor y Brifysgol yn y pen draw i'r cynllun hwn a'i amcanion cysylltiedig yn dangos ymrwymiad y sefydliad ar lefel uwch i gyfoethogi a chadw bioamrywiaeth drwy ei weithredoedd.



Ffigur 2 Enghraifft o ddôl blodau gwyllt sydd wedi'i chyflwyno ar Dir y Brifysgol



Ffigur 3 Enghraifft o bentryrau boncyffion a adawyd ar ôl gwaith ar y coed i hwyluso ac annog cynefinoedd pryfed

Amcanion Cysylltiedig


Wrth ymarfer ei chyfrifoldebau dan y Ddeddf hon, ac wrth weithio at gyflawni'r amcanion uchod, bydd Prifysgol Aberystwyth hefyd yn ceisio cydweddu ei gweithgareddau gydag amcanion Cynllun Adfer Natur Cymru:

1. Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i **wreiddio bioamrywiaeth mewn penderfyniadau ar bob lefel;**
2. **Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig** a gwella eu rheolaeth;
3. **Cynyddu gwydnwch ein hamgylchedd naturiol** drwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd;
4. **Mynd i'r afael â phwysau allweddol** ar rywogaethau a chynefinoedd;
5. Gwella ein **tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro;**
6. Sefydlu fframwaith **llywodraethu a chymorth** ar gyfer cyflenwi.

Adolygu

Yn unol ag ethos y Brifysgol o wella'n barhaus, gall y cynllun hwn fod yn agored i'w newid neu ei ddiwygio ar unrhyw adeg yn ystod ei weithrediad, a chaiff ei adolygu'n rheolaidd i ystyried unrhyw adnoddau ychwanegol a gyhoeddir, fel unrhyw ddatganiadau maes perthnasol. Bydd y Brifysgol hefyd yn monitro ac yn addasu ei harferion yn briodol mewn ymateb i unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth berthnasol a/neu ymarfer gorau cydnabyddedig ar gyfer hyrwyddo a chadw bioamrywiaeth ac ecosystemau. Bydd unrhyw newidiadau i strategaethau'r Brifysgol y mae'r cynllun hwn yn gysylltiedig â nhw hefyd yn ysgogi adolygiad buan o'i gynnwys.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn croesawu'r cyfle i allu darparu diweddiariad mewn perthynas â'i gweithgareddau wrth ddilyn yr amcanion hyn, a gyhoeddir fel adroddiad cyn diwedd 2019, yn unol â gofynion Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016.



Atodiad

Lluniwyd yr adroddiad hwn gydag ystyriaeth i'r dogfennau canlynol:

Deddf Amgylchedd (Cymru): <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents/enacted>

Datganiad Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru:

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents/enacted>

Cyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol:

<http://www.naturalresources.wales/sonarr?lang=cy>